Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 473 MAWRTH 2025 | AM DDIM

## DATHLIAD DYDD GŴYL DEWI

**-ROB EVANS**

Weithiau mae ffordd y byd yn anghyfleus dros ben. Meddyliwch am Ddydd Gŵyl Dewi, mae ar ddiwrnod gwahanol bob blwyddyn. Mae ein grŵp Cymraeg ni yn Newton yn cyfarfod ar ddydd Mercher ac mae'r gwasanaeth Cymraeg yn yr eglwys ar ddydd Sul wrth gwrs. A phryd oedd Dydd Gŵyl Dewi? Ar y dydd Sadwrn! Doedd hyd yn oed plant yr ysgol ddim yn gallu dathlu ar y diwrnod. Cym on byd, sortiwch eich hunain allan! Mae Dydd Gŵyl Dewi yn gorfod bod ar ddydd Mercher neu ddydd Sul bob blwyddyn o hyn ymlaen!

Er hynny ar y dydd Mercher roedd ein grŵp Cymraeg yn Newton yn barod i ddathlu a'r tro yma roedd gennym ni ddau aelod newydd i gyfoethogi'r dathliad - Gaynor Popham a David Williams. Roedd gennym ni un seren werthfawr yn barod yn David Lewis, gynt o Opera North ac mae o wedi trawsnewid ein dathliadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae David Williams yn gallu dynwared Max Boyce yn berffaith. Mae Gaynor yn chwarae'r piano yn wir ond dim ond os ydy'r piano ar gael a doedd hyn ddim yn sicr ar y dechrau ond ar ôl i ni orffen ein cawl cennin roedd newyddion da o lawenydd mawr. Roedd y piano wedi cyrraedd.

Dechreuodd yr adloniant efo David Lewis yn canu Y Deryn Pur efo Dafydd y Garreg Wen i ddilyn a bron i'r llyfrau disgyn oddi ar y silffoedd mor gryf oedd ei lais. Cyfle i ni wdyn i ganu Ar Hyd y Nos ac Ar Lan y Môr, roedden ni'n reit dda hefyd!

Ac wedyn tro David Williams ac roedd fel bod y dyn ei hun yna efo ni wrth iddo ganu Hymns and Arias, ni i gyd yn helpu efo'r gytgan wrth gwrs.
Lawr ar Lan y Môr, Calon Lân ac Oes Gafr Eto cyn i David Lewis arwain ni yn Yma o Hyd a'r breichiau yn chwifio o ochr i ochr. Cloi efo Hen Wlad fy Nhadau a phobl yn gallu clywed ni o ochr arall i'r Ddinas.
A dyna oedd brynhawn ysbrydoledig a ni i gyd yn llawn balchder o fod yn Gymry Cymraeg a dysgwyr brwdfrydig.

Diolch yn fawr i bawb yn y gegin a oedd wedi bod yn brysur yn gwneud cawl, i'r ddau David, Lewis a Williams am ein diddanu ni efo'i dalentau ac i Gaynor am ei gwaith arbennig ar y piano. Ac yn olaf diolch yn fawr i'n haelodau am gymryd rhan efo gymaint o frwdfrydedd.
Prynhawn hollol arbennig yn wir!



Dyn ni Yma o Hyd!

## CÔR TŶ TAWE YN DIDDANU

**-HENI GRUFFUDD**

Cafodd Côr Tŷ Tawe ddau gyfle i ganu yn nathliadau Gwyl Ddewi Abertawe.
Agorodd y Côr y diddanu ar lwyfan Sgwâr Dewi Sant yn y bore, ac yna amser cinio canodd y Côr yng nghaffi'r farchnad.
Yn y gynulleidfa niferus roedd Mari Watkin, sbardunydd cychwyn y Côr yn 1990. Mae Mari'n gweithio ac yn byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd ond meddai, "Rwy wrth fy modd yn dod i Abertawe ar ddydd Gŵyl Ddewi, gan fod cymaint yn digwydd yma."
Canodd y côr saith o ganeuon, a dau ohonyn nhw â chysylltiad arbennig ag Abertawe, sef Y Cwm a Tangnefeddwyr.
Meddai Rich, un o gantorion bas y côr, sy'n hanu o Gernyw, "Roedd yn hynod briodol canu Tangnefeddwyr yn y Farchnad, un o'r mannau gafodd eu bomio yn yr Ail Ryfel Byd.
Arweiniwyd y Côr gan Bethan Wynne Phillips.





## DYDD GŴYL DEWI 2025 YNG NGHILÂ

-RHIANNON BARRAR, CYNGOR CYMUNED CILÂ

Ers blynyddoedd bellach, mae plant Ysgol Gynradd Hendrefoelan, wedi gwisgo yn eu gwisgoedd Cymreig, wedi dod i lawr i precinct Cilâ i ganu caneuon am Dewi Sant mor agos â phosibl at y diwrnod ei hun (eleni Mawrth 3ydd). Eleni daeth plant Ysgol Gynradd Dyfnant i ymuno â nhw. Roedd y precinct dan ei sang gyda theuluoedd a ffrindiau. Cawsant fwynhau amrywiaeth o ganeuon yn y Gymraeg gan gynnwys Calon Lân a Hen Wlad Fy Nhadau. Roedd y plant yn edrych ac yn swnio'n wych!



Ysgol Gynradd Hendrefoilan



Ysgol Gynradd Dyfnant

Mae Cyngor Cymuned Cilâ yn cefnogi'r digwyddiad bob blwyddyn drwy ddarparu diodydd a phice ar y maen i'r plant ar ôl eu perfformiad. Eleni talodd y Cyngor Cymuned am osod baneri'r Ddraig Goch a Dewi Sant yn y precinct a noddi cystadleuaeth ffenest Dydd Gŵyl Dewi â'r wisg orau. Y meini prawf beirniadu oedd:

Y meini prawf beirniadu oedd:

- Ymddangosiad Cyffredinol (dychymyg, gwreiddioldeb a dawn)
- Defnydd o'r Gymraeg
- Defnydd priodol o liwiau

Cystadlodd pymtheg o fusnesau. Roedd y safon yn uchel iawn oedd yn ei gwneud hi'n anodd iawn i'r beirniaid, y Cynghorwyr Mary a Jeff Jones ddewis enillwyr!

Llongyfarchiadau i:
Eddie Tuckers Gofal angladd – 1af
Ymchwil Canser Cymru – 2il
Optegydd Square Eyes – 3ydd

Canmoliaeth uchel i Salon a Stuart's Artisan Bakery.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn nesaf!

## TEITHIAU'R WENNOL

-ROB EVANS

### Parc Clun

Roedden ni hefyd wedi dathlu Dydd Gŵyl Dewi ym Mharc Clun ac roedd y tywydd yn dda, yn sych, yn heulog ond braidd yn oer yn y cysgod.
Anhygoel i feddwl ein bod ni mewn gwirionedd yn cerdded trwy beth oedd ar un amser yn ardd gefn i deulu'r Vivians. Ar ei uchafbwynt roedd Abertawe yn le prysur dros ben efo diwydiant trwm mewn pob cornel a llawer o bobl yn gwneud arian mawr. Roedd Abertawe fel ryw fath o Klondyke. Does dim llawer o'r bobl fawr o gwmpas rŵan ond maen nhw wedi gadael parciau ysblennydd i ni.

Taith hamddenol cawson ni a digon o amser i grwydro a sgwrsio yn yr iaith Gymraeg. Mae'r parc yn dringo'n raddol o'r môr a golygfeydd braf o'r bae unwaith dach chi wedi cyrraedd y pen. Mae 'na garafan yn gwerthu coffi, te a diodydd meddal ac er roedd llawer o bobl yn sefyll mewn rhes roedd digon o le i ni ar yr unig fwrdd yna!



### Castell Pennard

Mae wastad yn bleser i gerdded i Gastell Pennard a'r tro yma roedden ni'n dechrau o Shepherds ym Mharc Mill. Tipyn bach o ddringo trwy'r coed ond efo'n pennau i lawr a chadw at y plodio doedd hi ddim yn hir cyn i ni gyrraedd y cwrs golff. Ar yr hysbysfwrdd dysgon ni bod y castell yn gartref i'r planhigyn prin, llysiau'r bystwn cynnar, doedd y bwrdd ddim yn dweud pryd oedd y planhigyn mewn blodau a doedden ni ddim yn disgwyl ei weld. Ond dyna ble oedd un ar gornel wal y castell, ac unwaith i ni weld yr un roedden ni'n gweld llawer mwy! Prin efallai ond nid fan hyn! Does dim ond un lle yn y Deyrnas Unedig byddech chi'n gweld y planhigyn yma, rhwng Pwll Du a Phen Pyrod. Efallai yn fwriadol mae'n tyfu ar uchder sydd yn gwneud hi braidd yn anghyfforddus i dynnu llun, ond mae'n werth yr ymdrech.

Mae'r golygfeydd o uchder y castell yn arbennig, yr afon yn troelli ei ffordd at y môr trwy'r traeth hyfryd. Mae'n enwog dros y byd i gyd ac mae ar stepen ein drws.

Tydan ni'n lwcus!



Llysiau'r bystwn cynnar

## BYD NATUR – MIS EBRILL 2025
-PATRICK SOPER

Mae tylwyth coed llwyfen yn cynnwys mwy na dwsin o rywogaethau, ac ymhlith y mwyaf cyffredin yw'r llwyfen lydanddail.Brodorol i'r ynysoedd hyn a rhan fwyaf Ewrop, dyma goed mawr a chollddail sy'n gallu cyrraedd dros gan droedfedd o uchder, ac yn aml mae ganddyn nhw mwy nag un boncyff.

Llyfn yw rhisgl ac anghymesur yw'r dail, yn enwedig wrth eu coes. Gall y llwyfenni hyn dyfu i'w huchder llawn mewn coetiroedd, ond yn amlach rydym yn dod o hyd iddyn nhw yn ein perthi, yn gyfyngedig o ran maint ond yn ffynnu.

Mae pren llwyfen lydanddail yn addas i wneud dodrefn, estyll ac yn y blaen. Daw'r enw Saesneg o'r Eingl-sacsoneg 'wich', gyda'r ystyr 'ystwyth'. Amser maith yn ôl, felly, byddai saethwyr Cymreig yn dewis llwyfen lydanddail i wneud eu bwâu hir; ond yr ywen oedd y ffefryn gan saethwyr Lloegr.

Cochlyd yw'r blodau sy'n ymddangos ym mis Mawrth / Ebrill, wedi'u dilyn gan yr hadau; mae adain yr hadau yn eu galluogi i arnofio yn esmwyth i lawr i'r tir. Roedd y rhisgl yn arfer cael ei defnyddio mewn ardaloedd yr Alban i liwio gwlân yn felyn blynyddoedd yn ôl. A châi brigyn llwyfen lydanddail ei gadael mewn pob cord laeth er mewn cadw draw'r tylwyth teg.

Tueddol i gael clefyd llwyfen yr Isalmaen yw aelod hwn o'r teulu, yn anffodus. Cafodd y salwch hwn ei ganfod yn y DU mor bell yn ôl â'r 1920au. Rhyw ddeugain blynedd yn hwyrach gwnaeth amrywiolyn llawer mwy niweidiol o'r clefyd gyrraedd Prydain. Ers diwedd y 1960au, felly, rydym wedi colli llwyfenni urddasol di-rif ac, i ryw raddau, mae'r golled honno yn parhau.

### Y Berfagl Fach

Gall blodau glas atyniadol y berfagl fach gael eu gweld rhwng diwedd y mis bach a chanol mis Mai. Credir ei bod yn frodorol i ardaloedd de a chanol Ewrop, mwy na thebyg yn cynnwys lleoliadau de Lloegr. Gydag amser mae hi wedi ymgartrefi ledled y DU.

Dyma blanhigyn sy'n rhan o'r teulu llewyg y ci, gyda'i ddail hirgrwn a bytholwyrdd. Maent yn tyfu mewn coedwigoedd a pherthi, fel arfer mewn lleoedd cysgodol.

Er gwaethaf harddwch syml ei blodau, gwenwynllyd i bobl, cathod, ceffylau ac yn arbennig i gŵn yw pob rhan y berfagl. Rhyw fodfedd ar eu traws yw blodau'r berfagl fach; mae blodau ei chyfnither y berfagl fwyaf yn gallu cyrraedd dwywaith y maint hwnnw.

Mae modd i'r perfagl fyw hyd at ugain blynedd, a llawer o arddwyr yn eu cyfrif yn oresgynnol.






## RECORDIAU FEINYL
-DAVID GREENSLADE

Hyd fy oes , lle bynnag rwy'f wedi byw wi wedi son am Gymru wrth y byd. Yn rhinwedd fy swydd wi wedi trefnu addangosfeydd celf yn Siapan ac yn Oman; dw'i wedi cyflwyno mewn sawl wlad ar destunau mor amrywiol ag Iolo Morgannwg a Gorsedd y Beirdd ac hefyd y Cymro John Hughes a sefydlodd dinas Donetsk (Wcrain). Fi a dechreuodd Cymdeithas Dewi Sant, Atlanta Georgia, ym 1984.

Ond erbyn hyn mae tynged a ffawd wedi fy arwain at ddwyrain Ewrop a chyn bo hir byddaf yn symud i Rwmania i fyw. Bydd arddangosfa gennyf ym Mwcarest ac, wedi cael blas ar y wlad hyfryd honno, wedi penderfynu symud yna i fyw.

Bydd rhaid felly gwerthu fy nghasgliad o feinyl Cymraeg. Yr hen albymau LPs o'r chwechdegau (y rhan fwyaf). 190 ohonynt – ac wi wedi tynnu llun o bob un. Os oes gan rywun ddiddoreb mewn casglaid go anghyffredin o gerddoriaeth Cymraeg mae croeso iddynt fy nghysylltu trwy gyfrwng Facebook.



## SERENNU YN NHŶ TAWE
-DAFYDD WILLIAMS

Daeth y gantores a chyfansoddwraig hynod dalentog Meinir Gwilym yn ôl i ganolfan Tŷ Tawe ar Nos Wener 21 Ionawr. Yn gymwys yr un ffordd â'i sioe ddiwethaf, cafodd pob sedd ei gwerthu mas, a bu'r dorf sylweddol wrth eu boddau gyda'i pherfformiad meistrolgar.

Yn enedigol o blwyf Llangristiolus yng nghalon Ynys Môn, mae Meinir wedi sicrhau lle iddi ei hun fel un o'r artistiaid cyfrwng Cymraeg mwyaf poblogaidd erioed.

Diolch i Tomos â'r Fenter Iaith am drefnu sioe mor lwyddiannus. Y band nesaf oedd Burum ar Nos Wener 28 Ionawr.



## MEDDYGON MYDDFAI GAN DR DONALD WILLIAMS

**-MARTIN JONES, CYMDEITHAS GYMRAEG LLANDEILO FERWALLT**

Rydw i'n siŵr eich bod chi i gyd yn gyfarwydd â thraddodiad Meddygon Myddfai. Dechreuodd y meddygon gwreiddiol y traddodiad o drosglwyddo arbenigedd meddygol o fewn teuluoedd o dad i fab yn y drydedd ganrif ar ddeg, a pharhaodd y traddodiad hwn tan iddo ddod i ben yn y ddeunawfed ganrif. O leiaf, dyna beth roedd pobl yn credu tan yn ddiweddar. Ond ar 17eg o fis Mawrth, mewn sgwrs ddiddorol dros ben i 28 o aelodau Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt, dangosodd Dr. Donald Williams taw'r gwir ydy bod y traddodiad wedi parhau a'i fod e'n dal yn fyw heddiw.

Dechreuodd Dr. Williams (a ddaeth ei hun o ardal Myddfai) ei sgwrs gan esbonio bod, yn ogystal â thraddodiad Meddygon Myddfai yn Ne Cymru, hefyd traddodiad Meddygon Esgyrn Môn yng Ngogledd Cymru. Ymhlith y meddygon hyn roedd Hugh Owen Thomas a ddyfeisiodd y "Thomas Splint" a Robert Jones, ei nai, a sefydlodd Ysbyty Orthopedig Gobowen. Cafodd "splint" Hugh Owen Thomas ei ddefnyddio yn y Rhyfel Byd Cyntaf (o ganlyniad, lleihaodd y gyfradd marwolaethau cysylltiedig â thoriadau o 80 i 20 y cant).

Yn dychwelyd i Feddygon Myddfai, dysgon ni i'r traddodiad ddechrau gyda Rhiwallon a'i dri mab a ddaeth yn feddygon i'r tywysog Rhys Gryg (a laddwyd ym 1234).

Ac wedyn, siaradodd Dr Williams am lyfr wedi'i gyhoeddi ym 1861 a chysylltodd Feddygon Myddfai â chwedl Morwyn y Llyn (sef Llyn y Fan Fach ger Myddfai). Yn ôl fersiwn y chwedl yn y llyfr hwn, ar ôl i'r forwyn mynd yn ôl i'r llyn, byddai hi'n dychwelyd yn achlysurol i ddysgu ei meibion am rinweddau meddyginiaethol y planhigyn a dyfai yn ymyl y llyn.

Roedd pobl yn credu bod y traddodiad wedi dod i ben ar ôl marwolaeth dau feddyg, sydd a'u carreg fedd yn eglwys y plwyf ym Myddfai, yn y ddeunawfed ganrif. Ond dangosodd Dr Williams sut, ar ôldarganfod bod dau ymgynghorydd yn Ysbyty St Barts, Llundain, yn dod o Langadog, plwyf yn ymyl Myddfai, datgelodd ymchwil pellach bod yr ardal wedi parhau i godi meddygon o safon uchel. Yn eu plith ydy Syr John Williams, oedd yn feddyg i'r frenhines Victoria. Ef oedd Llywydd cyntaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru a dderbyniodd ei gasgliad enfawr o lawysgrifau a llyfrau. Mr Ivor Lewis oedd y llawfeddyg cyntaf yn y DU i ymgymryd â llawdriniaeth frys i gael gwared ar geulad gwaed o'r ysgyfaint. Yn fwy diweddar, roedd Yr Athro Robin Jones yn ddarlithydd cyswllt mewn oncoleg yn Seattle. Ac, wrth gwrs, mae Dr Williams ei hun yn rhan o'r traddodiad!

Felly, casglodd Dr Williams taw traddodiad sy'n parhau ydy traddodiad Meddygon Myddfai.

Diolch yn fawr iawn i Dr Williams am noson mor ddiddorol a hefyd am y llyfrynnau a roddwyd i'r aelodau ar ôl y sgwrs. Edrychon ni ymlaen at eich croesawu chi'n ôl yn y dyfodol.

## MISOEDD COLL Y CALENDR CYMRAEG

**-ELIN JONES**

Dyma ni ar ddechrau'r flwyddyn, ac rwy'n siwr bod calendr newydd sbon gyda phob un ohonom yn barod i gofnodi apwyntiadau, cyfarfodydd a phartïon y misoedd nesaf. Ac efallai i chi sylwi, yn enwedig os oes calendr dwyieithog gyda chi, bod tebygrwydd amlwg rhwng enwau rhai misoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y rheswm yw eu bod yn dod, yn y ddwy iaith, o'r enwau Lladin ar y misoedd hynny. Lladin oedd iaith y Rhufeiniaid a ddaeth â llyfr (liber yn Lladin) ac ysgrifen (scribendum) i'r ynysoedd hyn - a'r arfer o gadw cofnodion hefyd, wrth gwrs. Ac am ganrifoedd, roedd pwysigrwydd arbennig i Ladin. Hi oedd unig iaith yr eglwys, addysg, llysoedd barn a chofnodion swyddogol am ganrifoedd lawer, ac fe welwch olion hynny o hyd, o'n darnau punt i'n cofebau rhyfel.

Felly, wrth edrych ar ein calendr dwyieithog, hawdd yw cysylltu Ionawr a January (o'r Lladin Ianuarius), ac er bod Chwefror a Februarius wedi gwahanu tipyn dros y canrifoedd maen nhw'n perthyn, serch hynny. Mae Mawrth (Martius), Ebrill (Aprilis) a Mai (Maia) yn dal yn agos at ei gilydd. Ond beth wnewch chi o enwau misoedd Mehefin a Gorffennaf? Ac er bod gwreiddyn Lladin Awst ac August yn amlwg, beth am y pedwar mis sy'n ei ddilyn?

Mae enwau Cymraeg pedwar mis olaf y flwyddyn yn disgrifio eu nodweddion a'r hen ffordd amaethyddol o fyw. Medi yw mis y cynhaeaf; Hydref y mis pan fydd yr hydd yn brefu - yn galw am ei gymar. Ystyr Tachwedd yw "lladdfa" ac mae'n disgrifio'r arfer cyntefig o ladd defaid, gwartheg a moch er mwyn bwyta eu cig dros fisoedd llwm y gaeaf. Disgrifio dyddiau byrion Rhagfyr mae enw mis olaf y calendr.

Wrth gwrs roedd enwau ar fisoedd eraill y flwyddyn hefyd cyn dyfodiad Iwl Cesar a'i lengoedd, ond y mae pob un o'r rheiny wedi eu colli gydag amser - ar wahan i un. Mae enw gwreiddiol mis Mai wedi ei gadw mewn hen farddoniaeth, ac yn ffitio'n dwt iawn gydag enwau Cymraeg misoedd yr haf. Cyntefin oedd enw Mai, mis cyntaf yr haf; Mehefin oedd ei ganol - a'r mis wedyn oedd ei ddiwedd. Yng Ngorffennaf roedd yr haf yn gorffen ym marn pobl yr hen ddyddiau.

Ond beth am enwau coll y misoedd sydd ag enwau o'r Lladin? Hyd y gwn i, does dim cofnod ohonynt wedi ei gadw, ond mae cliw gennym mewn lle annisgwyl. Yn 1897, ym mhentref Coligny yn nwyrain Ffrainc, darganfuwyd casgliad o ddarnau o efydd yn y pridd. Roedd ysgrifen arnynt, ac wedi iddynt gael eu rhoi at ei gilydd, gwelwyd mai math ar galendr ydoedd - calendr a wnaethpwyd dwy fil o flynyddoedd yn ôl gan bobl oedd yn siarad iaith Geltaidd. Ac mae'r calendr hwn yn rhoi enwau'r misoedd yn eu hiaith hwy. Mae un enw, ym marn yr ysgolheigion, yn cyfateb i Mehefin ein calendr ni. Ond dim ond un sydd, yn anffodus. Mae enwau'r misoedd eraill ar goll o hyd - oni bai bod calendr Celtaidd arall yn aros i'w ddarganfod rhywle....

## CHWECH O SÊR Y DYFODOL I DDERBYN GWOBRAU UNWAITH-MEWN-OES YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD

-HEINI GRUFFUDD

Mae Urdd Gobaith Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) yn falch o gyhoeddi enwau chwe gwobr newydd sbon i gystadleuwyr sy'n serennu ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd eleni, gyda chefnogaeth rhai o dalentau mwyaf Cymru.

Bydd y gwobrau newydd yn cynnwys sesiynau mentora i chwe unigolyn 19-25 oed gyda Syr Bryn Terfel, yr actor Matthew Rhys, y ddawnswraig broffesiynol Amy Dowden, y feiolinydd Rakhi Singh, yr enillydd BAFTA Callum Scott Howells ac un o reolwyr digwyddiadau fwyaf profiadol Cymru, Sarah Hemsley-Cole.
Mae enwau'r gwobrau newydd fel a ganlyn:

- Gwobr Syr Bryn Terfel (lleisiol)
- Gwobr Amy Dowden (dawns)
- Gwobr Callum Scott Howells (sioe gerdd)
- Gwobr Matthew Rhys (theatr)
- Gwobr Rakhi Singh (offerynnol)
- Gwobr Sarah Hemsley-Cole (cefn llwyfan)

Daw'r datblygiad yma yn sgil llwyddiant partneriaeth newydd yr Urdd a CBCDC yn 2024, er mwyn cynnig profiadau amhrisiadwy i chwech o gystadleuwyr Eisteddfod yr Urdd – o ddosbarthiadau meistr yn eu disgyblaethau perthnasol, i gyfleoedd i berfformio ar lwyfan rhyngwladol. Bydd y gwobrau newydd hefyd yn cynnwys cefnogaeth ariannol tuag at hyfforddiant pellach.

"Fel rhywun sy'n gysylltiedig ag Eisteddfod yr Urdd a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, rwy'n falch iawn o gefnogi'r wobr hon," meddai Syr Bryn Terfel. "Mae ysbrydoli perfformwyr Cymreig y dyfodol yn hanfodol, ac edrychaf ymlaen at weld y Llysgenhadon Celfyddydol newydd yma'n ffynnu."

## ENILLYDD GRANDRAMODI

-GERAINT DAVIES

Mae'n bleser gan Grandramodi (cynllun ar y cyd rhwng Grand Ambition a Chymdeithas Drama Gymraeg Abertawe) gyhoeddi mai Noni Lewis yw enillydd ein cystadleuaeth ysgrifennu drama gyntaf.

Mae Noni wedi gweithio yn y diwydiannau creadigol dwyieithog trwy gydol ei bywyd; fel actor a throslais am yr ugain mlynedd gyntaf, cyn dechrau ysgrifennu a chyfarwyddo tua 8 mlynedd yn ôl.




Ers hynny, mae hi wedi addasu straeon ar gyfer theatrau ieuenctid, wedi datblygu ac ysgrifennu sgriptiau gwreiddiol, ac wedi creu dramâu 'Mummers' pwrpasol ar gyfer y gymuned leol. Mae Noni ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gynhyrchu a theithio ei drama ddwyieithog newydd 'Grip of Life' yng Nghymru ac America yn 2026, stori wedi ei hysbrydoli gan fywyd Eleanor Daniels, actores a fu'n byw a gweithio rhwng Cymru ac America trwy'r ganrif ddiwethaf. Mae hi hefyd yn gweithio ar ddarn arall o'r enw 'Mamiaith' a chomedi o'r enw 'What Have You Got Against Gaby Roslin?' Mae gwaith ysgrifennu Noni yn aml yn ddwyieithog, ond dyma'r sgript gyntaf erioed iddi ysgrifennu yn llwyr yn y Gymraeg, ac mae'n edrych ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda'r tîm ar ddatblygu 'Cysur Dychymyg Creulon'.

## NOFEL GYNTAF NEIL ROSSER: DYCHAN DEIFIOL O'R BYD ADDYSG

Yn ystod mis Mawrth, cyhoeddwyd nofel gyntaf Neil Rosser, yn wreiddiol o Gelli Fedw Abertawe. Mae Neil yn adnabyddus fel canwr ar y sîn Gymraeg ers dros dri deg o flynyddoedd. Bu Neil hefyd yn athro, ac ers gorffen dysgu mae wedi ysgrifennu nofel ddeifiol yn gwatwar y byd addysg ac yn arbennig y system arolygu ysgolion, neu Gorestyn fel y'i gelwir yn y nofel.

Cyfeiria'r teitl at 'wythnos ryfedd' yr arolygydd Gwilym Puw, pan daw i sylweddoli fod ei holl yrfa wedi bod yn wastraff amser, ac mae'n cael ryw fath o brecdown gan ddechrau edrych ar y byd mewn ffordd wahanol. Wrth i'r wythnos fynd heibio mae'r holl gyfundrefn y mae'n rhan ohoni yn ei ddadrithio.

Ond yn ogystal â bod yn ddychanol am y system arolygu, mae'r nofel hefyd yn ryw fath o deyrnged i'r athrawon y mae'n cyflwyno'r nofel iddynt.

Ceir portreadau cynnes o athrawon sy'n cyflawni llawer er gwaetha'r gyfundrefn sydd ohoni sy'n gallu lladd enaid, dychymyg a brwdfrydedd.Meddai Neil "Mae llawer o'r digwyddiadau a rhai o'r cymeriadau wedi eu seilio ar fy mhrofiadau fel athro... swydd digon anodd dyddie ma. Byddwch yn neisach i'r athrawon, neu fydd neb ar ôl i wneud y swydd!"

Mae'r nofel hefyd yn cynnwys atgofion o gyfnod y Mods a bandiau'r cyfnod fel y Jam wrth i Gwilym Puw lygadu Lambreta newydd yn ystod ei 'wythnos ryfedd'.

Yn ogystal a rhoi darlun o fywyd ysgol, mae'r nofel Wythnos Ryfedd Gwilym Puw yn llawn sylwadaeth am y byd cyfoes, yn cynnwys effaith technoleg, ffonau symudol a phwyllgorau ym myd y dosbarth canol.

Bydd Wythnos Ryfedd Gwilym Puw yn cael ei lansio yn Cegin Stacey, Abergwili ar y 3ydd o Ebrill am 7.00.

Bydd y nofel ar werth yn Siop Tŷ Tawe.

## SGWRS GYDAG AWDUR

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cafodd 60 o ddisgyblion blwyddyn 9 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe gyfle i gwrdd â'r awdur, Cynan Llwyd, mewn sgwrs dros Teams. Mae'r disgyblion wedi darllen ei nofel 'Tom' yn ystod y flwyddyn a hyfryd oedd cael y cyfle i'w holi am y nofel ac am ei waith fel awdur yn gyffredinol. Diolch yn fawr i Gronfa Ysbrydoli Cymunedau Llenyddiaeth Cymru am grant tuag at y digwyddiad.



## DIGWYDDIAD Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Hyfryd croesawu un o'n cyn-ddisgyblion, Sioned Dafydd, nôl aton ni heddiw ym Mryn Tawe. Daeth Sioned, Ellis Lloyd Jones a Brett Johns i siarad gyda bl.11 am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg. Diolch yn fawr i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am drefnu'r ymweliad. Cafodd y tri fore prysur yn ymweld â ni ac Ysgol Gyfun Gŵyr gan hybu'r Gymraeg ar draws y Sir felly!



## DIWRNOD Y LLYFR YN YSGOL BRYN TAWE

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr eleni, aeth criw o fl.9 Bryn Tawe i ddarllen gyda holl ysgolion cynradd ein clwstwr- Y Cwm, Lôn Las, Gellionnen, Tirdeunaw a Tan-y-Lan. Cynhaliwyd gwasanaeth Diwrnod y Llyfr ac yn y gwasanaeth dangoswyd fideo o staff yr ysgol ac aelodau o'r 6ed yn sôn am eu hoff lyfrau. Trefnwyd bore coffi amser egwyl pan groesawyd Siop Tŷ Tawe i werthu llyfrau Cymraeg, a chynhaliwyd gweithgareddau hwylus eraill megis cyfle i gyfnewid llyfrau, a phos ym mhob gwers i geisio dyfalu pa aelod o staff oedd yn darllen (cuddiwyd wynebau'r staff a newid eu lleisiau!). Yn ogystal, cafodd nifer o ddisgyblion gyfle i ddewis llyfr i'w roi i aelodau o staff yr ysgol gyda'r bwriad y byddan nhw'n dychwelyd at yr aelod staff hwnnw cyn y Pasg i drafod y llyfr. Diolch i hefyd i rai aelodau o'r staff am wisgo fel cymeriadau o lyfrau. Gobeithio i bawb gael eu hatgoffa o'r mwynhad sydd i'w gael o ddarllen llyfrau.







## NEWYDDION YSGOL GYFUN GŴYR

## CYSTADLEUAETH GENEDLAETHOL RHWYDWAITH SEREN

Teithiodd dau dîm o ddisgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Gyfun Gwyr i Goleg yr Iesu, Rhydychen ar 20-21ain o Fawrth, i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Rhwydwaith Seren eleni. Ar ôl sicrhau buddugoliaethau yn y Cystadlaethau Rhanbarthol a threchu ysgolion o Abertawe a'r ardaloedd cyfagos yn y rowndiau blaenorol, roedd y myfyrwyr yn barod i gystadlu yn erbyn y gorau o bob cwr o Gymru.

Yn ystod eu harhosiad yn Rhydychen, cafodd y disgyblion y cyfle unigryw i brofi bywyd prifysgol yn uniongyrchol. Fe wnaethant aros mewn llety myfyrwyr yng Ngholeg yr Iesu, gan roi blas iddynt ar sut beth yw bod yn fyfyriwr mewn un o brifysgolion mwyaf adnabyddus y byd. Yn ogystal â'r gystadleuaeth ei hun, treuliodd y myfyrwyr amser yn yr Ystafell Gyffredin Iau (JCR), gan ennill mewnwelediad i agweddau cymdeithasol bywyd prifysgol.

Mae'r gystadleuaeth hon yn gystadleuaeth dadlau 'mace', sef ffurf strwythuredig o ddadlau lle mae dau dîm yn cyflwyno dadleuon ar bynciau dadleuol, yn ymateb i bwyntiau gwrthwynebol, ac yn amddiffyn eu safbwynt eu hunain. Ymhlith pynciau'r rownd derfynol eleni roedd a ddylai cronfeydd data digidol ddisodli llyfrgelloedd yn llwyr, gwahardd gwleidyddion rhag defnyddio cyfryngau cymdeithasol, a gwaredu Addysg Grefyddol fel pwnc ysgol.


Perfformiodd y disgyblion yn wych yn y gystadleuaeth, gan dderbyn canmoliaeth uchel am eu sgiliau dadlau. Gorffennodd y tîm Cymraeg a'r tîm Saesneg, yn y safle 1af yn y rownd derfynol genedlaethol, gan faeddu 89 o ysgolion uwchradd o dros Gymru gyfan.









Mwynhau'r Gymraeg · menter iaith abertawe RHIF CWMNI: 06693822 · Llys Nini Animal Centre







Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Mawrth.
Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia.
Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Ebrill erbyn Ebrill 7fed trwy ebostio Anys at:
**datblygu@menterabertawe.org**
Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

# AL LEWIS

## TAITH TRENAU 2025

o Sir Fynwy i Sir Fôn

## TRAIN TOUR 2025

from Abergavenny to Anglesey




Mewn partneriaeth â/In partnership with

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

200